

B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â darparu synnwyr eglur o gyfeiriad i'ch sefydliad, a chynlluniau tymor hir a fydd yn ei helpu i symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Mae angen i reolwyr ac arweinwyr ganolbwyntio ar y dyfodol a darparu gweledigaeth eglur o nod y sefydliad a'r llwybr y mae'n mynd i'w ddilyn i gyrraedd y nod hwnnw.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned hon ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B2. Mapio'r amgylchedd y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo**, **B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith** a **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** yng nghyffres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Os mai cwmni bach yw'ch sefydliad, dylech edrych ar Uned *A2 Develop your plans for the business* y mae Cynllun Datblygu Menter Cwmnïau Bychain (SFEDI) wedi'i datblygu yn benodol ar gyfer cwmnïau bychain a **allai** fod yn fwy addas i'ch anghenion. Gallwch gael gwybodaeth am yr uned oddi wrth SFEDI ffôn: 0114 241 2155 neu wefan SFEDI (www.sfedi.co.uk).

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddatblygu cynllun busnes strategol. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Arweinyddiaeth
- Dadansoddi
- Cynllunio
- Rheoli risg
- Arloesi
- Dirprwyo
- Blaenoriaethu

- Gosod amcanion
- Rhwydweithio
- Cynnwys pobl eraill
- Cyfathrebu
- Gwneud penderfyniadau
- Cydbwyso anghenion a buddiannau sy'n cystadlu
- Ymgynghori
- Trafod telerau
- Dylanwadu a pherswadio

B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Sefydlu gweledigaeth eglur, gymhellol y mae modd ei chyflawni, sy'n manylu ar gyfeiriad y sefydliad.
2. Nodi a blaenoriaethu amcanion strategol sy'n gyson â gweledigaeth y sefydliad.
3. Cydbwysu risg â chanlyniadau dymunadwy.
4. Cydbwysu syniadau newydd ag atebion profedig.
5. Sicrhau bod eich cynllun yn hyblyg ac yn agored i newid.
6. Datblygu polisiau a gwerthoedd a fydd yn arwain gwaith pobl eraill tuag at eich gweledigaeth.
7. Dirprwyo cyfrifoldeb am gyflawni nodau a dyrannu adnoddau'n effeithiol.
8. Nodi mesurau a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynllun.
9. Cydbwysu anghenion a disgwyliadau budd-ddeiliaid allweddol ac ennill eu cefnogaeth.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
2. Byddwch yn cynhyrchu ac yn cydnabod atebion dychmygus ac arloesol.
3. Byddwch yn myfyrio'n rheolaidd ar eich profiadau eich hun a phrofiadau pobl eraill ac yn defnyddio'r rhain i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
4. Byddwch yn cydbwysu risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
5. Byddwch yn cydbwysu agendâu ac yn adeiladu consensws.
6. Byddwch yn ystyried effaith eich gweithredoedd eich hun ar bobl eraill.
7. Byddwch yn bachu cyfleoedd pan fyddan nhw'n codi i gyflawni nodau tymor hir.
8. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
9. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
10. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol.

B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Pwysigrwydd cynllunio tymor hir a chanolig i lwyddiant sefydliad
2. Egwyddorion rheolaeth strategol a chynllunio busnes
3. Yr hyn y dylai cynllun busnes strategol ysgrifenedig ei gwmpasu
4. Pwysigrwydd bod yn greadigol ac yn arloesol ym maes rheolaeth strategol.
5. Sut i nodi risgiau posibl o ran cyflawni amcanion
6. Sut i ddatblygu amcanion strategol sy'n SMART (Sbesiffig, Mesuradwy, Amcan clir, Realistig, Terfyn amser)
7. Sut i ddirprwyo cyfrifoldeb a dyrannu adnoddau i gefnogi cynllun strategol
8. Pwysigrwydd ymgynghori â chydweithwyr a budd-ddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cynllun, a sut i wneud hyn yn effeithiol
9. Sut i ddatblygu mesurau a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad o'i gymharu â'r cynllun busnes strategol

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn eich sector
2. Datblygiadau'r farchnad yn eich sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Y farchnad mae'ch sefydliad yn gweithio ynddi
2. Sail cwsmeriaid gwirioneddol a phosibl eich sefydliad
3. Anghenion a disgwyliadau'ch cwsmeriaid gwirioneddol a phosibl
4. Eich cystadleuwyr a'ch partneriaid gwirioneddol a rhai posibl, a'u strategaethau a'u cynlluniau
5. Cyfleoedd sy'n newydd ac ar gael yn y farchnad
6. Gallu'ch sefydliad i ymateb i gyfleoedd yn y farchnad
7. Cydweithwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill, a'u hanghenion a'u disgwyliadau
8. Prosesau ar gyfer ymgynghori o fewn eich sefydliad
9. Ffynonellau gwybodaeth a all fod o gymorth wrth fonitro a gwerthuso.